

**Sunday 5<sup>th</sup> October 2025**  
**+ Thanksgiving for the Harvest**

**The collect of the day**

Lord of all creation, you give us the fruits of the earth in their season and crown the year with your goodness : help us so to receive your gifts with thankful hearts that we may use them to your glory, for the relief of those in want and to meet our daily needs, through Jesus Christ our Lord. AMEN

**The reading from Deuteronomy**  
(26.1-11)

Moses spoke to the people, saying: When you have come into the land that the Lord your God is giving you as an inheritance to possess, and you possess it, and settle in it, you shall take some of the first of all the fruit of the ground, which you harvest from the land that the Lord your God is giving you, and you shall put it in a basket and go to the place that the Lord your God will choose as a dwelling for his name.

You shall go to the priest who is in office at that time, and say to him, 'Today I declare to the Lord your God that I have come into the land that the Lord swore to our ancestors to give us.'

When the priest takes the basket from your hand and sets it down before the altar of the Lord your God, you shall make this response before the Lord your God: 'A wandering Aramean was my ancestor; he went down into Egypt and lived there as an alien, few in number, and there he became a great nation, mighty and populous. When the Egyptians treated us harshly and

afflicted us, by imposing hard labour on us, we cried to the Lord, the God of our ancestors; the Lord heard our voice and saw our affliction, our toil, and our oppression. The Lord brought us out of Egypt with a mighty hand and an outstretched arm, with a terrifying display of power, and with signs and wonders; and he brought us into this place and gave us this land, a land flowing with milk and honey. So now I bring the first of the fruit of the ground that you, O Lord, have given me.'

You shall set it down before the Lord your God and bow down before the Lord your God. Then you, together with the Levites and the aliens who reside among you, shall celebrate with all the bounty that the Lord your God has given to you and to your house.

**The Psalm**  
(100)

O be joyful in the Lord, / all the / earth: serve the Lord with gladness \* and come before his / presence / with a / song.

Know that the / Lord is / God: it is he that has made us and we are his; we are his people / and the / sheep of his / pasture.

Enter his gates with thanksgiving \* and his / courts with / praise: give thanks to / him and / bless his / name.

For the Lord is gracious; his steadfast love is / ever/lasting: and his faithfulness endures from gene/ration to / gene/ration.

**The reading from Philippians**  
(4.4-9)

Rejoice in the Lord always; again I will say, Rejoice. Let your gentleness be known to everyone. The Lord is near. Do not worry about anything, but in everything by prayer and supplication with thanksgiving let your requests be made known to God. And the peace of God, which surpasses all understanding, will guard your hearts and your minds in Christ Jesus.

Finally, beloved, whatever is true, whatever is honourable, whatever is just, whatever is pure, whatever is pleasing, whatever is commendable, if there is any excellence and if there is anything worthy of praise, think about these things. Keep on doing the things that you have learned and received and heard and seen in me, and the God of peace will be with you.

**The reading from the Gospel according to Saint John**  
(6.25-35)

When they found Jesus on the other side of the sea, the crowd said to him, 'Rabbi, when did you come here?'

Jesus answered them, 'Very truly, I tell you, you are looking for me, not because you saw signs, but because you ate your fill of the loaves. Do not work for the food that perishes, but for the food that endures for eternal life, which the Son of Man will give you. For it is on him that God the Father has set his seal.'

Then they said to him, 'What must we do to perform the works of God?'

Jesus answered them, 'This is the work of God, that you believe in him whom he has sent.'

So they said to him, 'What sign are you going to give us then, so that we may see it and believe you? What work are you performing? Our ancestors ate the manna in the wilderness; as it is written, "He gave them bread from heaven to eat."'

Then Jesus said to them, 'Very truly, I tell you, it was not Moses who gave you the bread from heaven, but it is my Father who gives you the true bread from heaven. For the bread of God is that which comes down from heaven and gives life to the world.'

They said to him, 'Sir, give us this bread always.'

Jesus said to them, 'I am the bread of life. Whoever comes to me will never be hungry, and whoever believes in me will never be thirsty.'

**The collect after communion**

Lord of the harvest, with joy we have offered thanksgiving for your love in creation and have shared in the bread and wine of the kingdom : by your grace plant within us such reverence for all that you give us that will make us wise stewards of the good things we enjoy; through Jesus Christ our Lord. AMEN



## Diolchgarwch am y Cynhaeaf

### Colect y dydd

Arglwydd yr holl greadigaeth, rwyf yn rhoi i ni ffrwythau'r ddaear yn eu pryd ac yn coroni'r flwyddyn â'th ddaioni: cynorthwya ni i dderbyn dy roddion â cholonnau diolchgar inni eu defnyddio i'th ogoniant, er lles y rhai sydd mewn angen a diwallu ein hanghenion beunyddiol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN

### Darlleniad o Deuteronomium

(26.1-11)

Pan ddoi i'r wlad y mae'r ARGLWYDD dy Dduw yn ei rhoi iti'n etifeddiaeth, a thithau'n ei meddiannu ac yn byw ynddi, yna cymer o flaenffrwyth holl gnydau'r tir y byddi'n eu casglu yn y wlad y mae'r ARGLWYDD dy Dduw yn ei rhoi iti, a gosod hwy mewn cawell, a mynd i'r lle y bydd yr ARGLWYDD dy Dduw yn ei ddewis yn drigfan i'w enw.

Dos at yr offeiriad a fydd yr adeg honno, a dywed wrtho, "Yr wyf heddiw'n datgan gerbron yr ARGLWYDD dy Dduw imi ddod i'r wlad yr addawodd yr ARGLWYDD i'n hynafiaid y byddai'n ei rhoi inni."

Yna fe gymer yr offeiriad y cawell o'th law, a'i osod gerbron allor yr ARGLWYDD dy Dduw. Yr wyt tithau wedyn i ddweud gerbron yr ARGLWYDD dy Dduw, "Aramead ar grwydr oedd fy nhad; aeth i lawr i'r Aifft gyda mintai fechan, a byw yno'n ddieithryn, ond tyfodd yn genedl fawr, rymus a lluosog. Yna bu'r Eifftiaid yn ein cam-drin a'n cystuddio a'n cadw mewn caethiwed caled. Wedi inni weiddi ar yr ARGLWYDD,

Duw ein hynafiaid, fe glywodd ein cri, a gwelodd ein cystudd a'n llafur caled a'n gorthrwm. Daeth â ni allan o'r Aifft â llaw gadarn a braich estynedig, a chyda dychryn mawr a chydag arwyddion a rhyfeddodau. Daeth â ni i'r lle hwn, a rhoi inni'r wlad hon, gwlad yn llifeirio o laeth a mêl. Ac yn awr dyma fi'n dod â blaenffrwyth cnydau'r tir a roddaist imi, O ARGLWYDD."

Rho'r cawell i lawr gerbron yr ARGLWYDD dy Dduw, a moesymgryma o'i flaen. Yr wyt ti a'r Lefiad, a'r dieithryn fydd yno gyda thi, i lawenhau am yr holl bethau da a roddodd yr ARGLWYDD dy Dduw i ti a'th deulu.

### Y Salm

(100)

Bloeddiwch mewn gorfoledd i'r ARGLWYDD, yr holl ddaear. Addolwch yr ARGLWYDD mewn llawenydd, dewch o'i flaen â chân.

Gwybyddwch mai'r ARGLWYDD sydd Dduw; ef a'n gwnaeth, a'i eiddo ef ydym, ei bobl a defaid ei borfa.

Dewch i mewn i'w byrth â diolch, ac i'w gynteddau â mawl. Diolchwch iddo, bendithiwch ei enw.

Oherwydd da yw'r ARGLWYDD; y mae ei gariad hyd byth, a'i ffyddlondeb hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.

### Darlleniad o Philipiaid

(4.4-9)

Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser; fe'i dywedaf eto, llawenhewch. Bydded eich hynawsedd yn hysbys i bob dyn. Y mae'r Arglwydd yn agos. Peidiwch â phryderu am ddim, ond ym

mhob peth gwneier eich deisyfiadau yn hysbys i Dduw trwy weddi ac ymbil, ynghyd â diolchgarwch. A bydd tangnefedd Duw, sydd goruwch pob deall, yn gwarchod dros eich calonnau a'ch meddyliau yng Nghrist Iesu.

Bellach, gyfeillion, beth bynnag sydd yn wir, beth bynnag sydd yn anrhydeddus, beth bynnag sydd yn gyfiawn a phur, beth bynnag sydd yn hawddgar a chanmoladwy, pob rhinwedd a phopeth yn haeddu clod, myfyriwch ar y pethau hyn. Y pethau yr ydych wedi eu dysgu a'u derbyn, eu clywed a'u gweled, ynof fi, gwnewch y rhain; a bydd Duw'r tangnefedd gyda chi.

### Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl

#### Sant Ioan

(6.25-35)

Felly, pan welodd y dyrfa nad oedd Iesu yno, na'i ddisgyblion chwaith, aethant hwythau i'r cychod hyn a hwylio i Gapernaum i chwilio am Iesu.

Fe'i cawsant ef yr ochr draw i'r môr, ac meddent wrtho, "Rabbi, pryd y daethost ti yma?"

Atebodd Iesu hwy, "Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthych, yr ydych yn fy ngheisio i, nid am ichwi weld arwyddion, ond am ichwi fwyta'r bara a chael digon. Gweithiwch, nid am y bwyd sy'n darfod, ond am y bwyd sy'n para i fywyd tragwyddol. Mab y Dyn a rydd hwn ichwi, oherwydd arno ef y mae Duw y Tad wedi gosod sêl ei awdurdod."

Yna gofynasant iddo, "Beth sydd raid inni ei wneud i gyflawni'r gweithredoedd a fyn Duw?"

Atebodd Iesu, "Dyma'r gwaith a fyn Duw: eich bod yn credu yn yr un y mae ef wedi ei anfon."

"Os felly," meddent wrtho, "pa arwydd a wnei di, i ni gael gweld a chredu ynot? Beth fedri di ei wneud? Cafodd ein hynafiaid fanna i'w fwyta yn yr anialwch, fel y mae'n ysgrifenedig, 'Rhoddodd iddynt fara o'r nef i'w fwyta.'"

Yna dywedodd Iesu wrthynt, "Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthych, nid Moses sydd wedi rhoi'r bara o'r nef ichwi, ond fy Nhad sydd yn rhoi ichwi y gwir fara o'r nef. Oherwydd bara Duw yw'r hwn sy'n disgyn o'r nef ac yn rhoi bywyd i'r byd."

Dywedasant wrtho ef, "Syr, rho'r bara hwn inni bob amser."

Meddai Iesu wrthynt, "Myfi yw bara'r bywyd. Ni bydd eisiau bwyd byth ar y sawl sy'n dod ataf fi, ac ni bydd syched byth ar y sawl sy'n credu ynof fi."

### Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Arglwydd y cynhaeaf, yr ydym wedi offrymu diolchgarwch yn llawen am dy gariad yn y greadigaeth ac wedi cyfranogi o fara a gwin y deyrnas: trwy dy ras planna ynom y fath barch at bopeth yr wyt yn rhoi inni fel y byddwn yn stiwardiaid doeth o'r pethau da yr ydym yn eu mwynhau; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN

Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru. Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011. Colectau a Gweddïau Ôl-Gymun o'r llyfr Y Calendr Newydd o'r Colectau Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadau a Salmu trwy ganiatâd o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004 Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cedwir pob hawl.